**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl yn y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru ac fe’i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad yr Ysgrifennydd Cabinet**

Yn fy marn i, mae’r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2024. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau’r costau tebygol.

**Jeremy Miles AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**22 Tachwedd 2024**

**Rhan 1**

**1. Disgrifiad**

1.1 Bydd Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2024 yn diwygio Atodlen 5 (fel y bo'n gymwys) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 sy'n llywodraethu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau fferyllol fel rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

1.2 Mae'r diwygiadau:

- yn diweddaru ac yn egluro telerau gwasanaeth contractwyr fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu gwasanaethau fferyllol y GIG yng Nghymru.

- yn ehangu'r rheoliadau presennol ar gyfer gweinyddu, cyflenwi a darparu meddyginiaethau ac offer gan fferyllwyr cymunedol i gynnwys archebion wedi'u llofnodi a ddyroddir gan optometryddion sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru fel rhan o Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS) a gyflwynwyd yn 2023.

  yn cyflwyno rheoliadau i ganiatáu i fferyllfeydd a meddygon fferyllol y GIG yng Nghymru weinyddu cyffuriau yn eu pecynnau gwreiddiol.

**2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

2.1 Dim.

**3. Y cefndir deddfwriaethol**

3.1 Mae'r offeryn hwn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 sy'n llywodraethu'r modd y darperir gwasanaethau fferyllol fel rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru o dan Ran 7 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("Deddf 2006").

3.2 Mae'r pwerau perthnasol i Weinidogion Cymru ddiwygio Rheoliadau 2020 wedi'u cynnwys yn adrannau 15, 80, 104 a 203(9) a (10) o Ddeddf 2006.

3.3 Mae'r rheoliadau hyn yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

4.1 Mae'r diwygiadau contractiol eang a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2022 drwy Presgripsiwn Newydd - A New Prescription (llyw.cymru) yn golygu bod amrywiaeth ehangach nag erioed o wasanaethau clinigol yn cael eu cynnig gan fferyllwyr cymunedol yng Nghymru. Bydd symleiddio a chanolbwyntio gweithgareddau ar ganlyniadau cleifion a'r pethau sy'n fwy gwerthfawr i'r GIG

yn cefnogi fferyllfeydd i ddefnyddio sgiliau clinigol ac arbenigedd fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfeydd yn fwy effeithiol yn unol ag amcanion Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach(rpharms.com).

4.2 Diben y ddeddfwriaeth hon yw sicrhau bod gweithgareddau a wneir wrth gyflawni rhwymedigaethau contractiol y GIG ar gyfer gwasanaethau fferyllol:

- yn parhau i fod yn addas i'r diben ac yn cefnogi nodau strategol ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddiwygio gwasanaethau gofal sylfaenol i fod yn fwy hygyrch a chynaliadwy yn unol â Model Gofal Sylfaenol Cymru.
- yn cyd-fynd â Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 a Deddf Meddyginiaethau 1968.
- yn cymryd i ystyriaeth y ffordd newidiol y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu gan fferyllfeydd a gofal sylfaenol ehangach (meddygon teulu, deintyddion ac optometryddion) a'r ffordd y cyflenwir meddyginiaethau; ac
- yn lleihau'r baich gweinyddol ar fferyllfeydd cymunedol.

4.3 Bydd diwygio'r rheoliadau yn rhoi mwy o sicrwydd a hyblygrwydd i weithwyr fferyllol proffesiynol a chontractwyr, gan egluro eu cyfrifoldebau a lleihau biwrocratiaeth a fydd yn caniatáu iddynt fuddsoddi mewn darparu gwasanaethau iechyd sy'n fwy ymatebol i anghenion cymunedau lleol a'r GIG yn ehangach.

4.4 Y bwriad yw cynyddu capasiti fferylliaeth gymunedol i ganolbwyntio ar wasanaethau sy'n canolbwyntio ar gleifion, gan effeithio'n gadarnhaol ar iechyd y cyhoedd a lleihau'r pwysau ar wasanaethau eraill y GIG.

4.5 Yn gryno, mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2024 yn cynnwys darpariaethau i wneud yr hyn a ganlyn:

Gwasanaethau Hanfodol

- Caniatáu i fferyllfeydd brosesu presgripsiynau wedi'u llofnodi gan optometryddion sy'n darparu Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS) ar gyfer problemau llygaid brys.
- Egluro'r gofynion ar gyfer trefniadau goruchwylio i fferyllwyr yn unol â deddfwriaeth sylfaenol.
- Ymestyn y gofyniad i ddarparu cyngor ar fyw'n iach i unrhyw un fel y bo'n briodol, nid dim ond pobl â chyflyrau iechyd penodol.
- Ei gwneud yn ofynnol cael cofnod o'r cyngor a roddir dim ond pan fydd yn arwyddocaol yn glinigol.
- Lleihau'r gofyniad am nifer penodol o ymgyrchoedd iechyd y cyhoedd bob blwyddyn i ganiatáu dull sydd wedi'i dargedu'n well.
- Ei gwneud yn ofynnol i fferyllwyr gymryd rhan yn y gwerthusiad o ymgyrchoedd hybu iechyd yn lle cofnodi nifer yr unigolion y rhoddir gwybodaeth iddynt.

Oriau Agor Fferyllfa

- Ei gwneud yn ofynnol bod cyfnod o 3 mis cyn y gall fferyllfa'r GIG ddiwygio ei horiau agor atodol pan fo gostyngiad yn nifer cyffredinol yr oriau y darperir gwasanaethau fferyllol, i ganiatáu amser i roi gwybod i'r cyhoedd.
- Caniatáu hyblygrwydd i newid oriau agor craidd y fferyllfa i gynnwys seibiant gorffwys o hyd at awr y dydd ar yr amod nad yw hyn yn arwain at ostyngiad cyffredinol yn nifer yr oriau craidd y darperir gwasanaethau ar y diwrnod hwnnw.
- Cyflwyno hyblygrwydd o ran sut y mae fferyllfeydd yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau i asesu boddhad â'r gwasanaethau a gynigir.
- Diwygio gofynion archwilio penodol a chyflwyno dull mwy hyblyg sy'n ei gwneud yn ofynnol i fferyllfeydd ymgysylltu â phartneriaid lleol i wella gwasanaethau iechyd.
- Ei gwneud yn ofynnol i ddigwyddiadau diogelwch cleifion gael eu hadrodd i'r system genedlaethol a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru yn hytrach na system leol.
- Egluro gofynion llywodraethu clinigol lleol.
- Diweddaru'r gofynion sy'n ymwneud â gweithdrefnau amddiffyn plant yn unol â Cysur | Gweithdrefnau Diogelu Cymru i gynnwys oedolion yn ogystal â phlant.

Gweinyddu Pecyn Gwreiddiol

- Yn dilyn deddfwriaeth y DU yn 2023, cyflwyno rheoliadau i ganiatáu hyblygrwydd i weinyddu hyd at 10% yn fwy neu'n llai na swm y feddyginiaeth a weinyddir (gydag eithriadau penodedig) fel y gellir gweinyddu pecyn llawn gwreiddiol gwneuthurwr yn lle rhannu'r pecyn. Bydd hyn o fudd i ddiogelwch cleifion drwy sicrhau bod cleifion yn cael meddyginiaethau a gyflenwir sy'n cynnwys yr wybodaeth ddiogelwch sydd wedi'i chynnwys yn neunydd pecynnu gwreiddiol meddyginiaeth neu arno.

## 5. Ymgynghori

5.1 Nid oes unrhyw ofyniad statudol i ymgynghori cyn gwneud y rheoliadau hyn.

5.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad byrrach, wedi'i dargedu, ar ddechrau 2024 gyda rhanddeiliaid perthnasol. Anfonwyd manylion y cynigion at amrywiaeth o sefydliadau a fyddai â buddiant uniongyrchol. Roedd hyn yn cynnwys yr holl fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru, cynrychiolwyr meddygon fferyllol, Fferylliaeth Gymunedol Cymru, sefydliadau cynrychioliadol ar gyfer y proffesiwn fferylliaeth a phroffesiynau eraill gan gynnwys Meddygon Teulu ac Optometreg, Corff Llais y Dinesydd ar gyfer safbwynt cleifion a phob bwrdd iechyd lleol. Roedd gan randdeiliaid gyfnod o wyth wythnos i ystyried y cynigion ac ymateb iddynt.

5.3 Daeth 12 o ymatebion i law. Roedd y rhain yn dangos bod cefnogaeth fwyafrifol mewn egwyddor ar draws yr holl gynigion. Pan godwyd pryderon, ystyriodd swyddogion y materion hyn ac mae mân newidiadau wedi'u gwneud i gynigion perthnasol fel y bo'n briodol.

**Rhan 2 - Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

## 6. Yr Opsiynau

Opsiwn 1: Gwneud dim, cadw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 fel y maent mewn grym ar hyn o bryd.

Opsiwn 2: Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 i ddiweddaru telerau gwasanaeth fferyllwyr y GIG sy'n darparu gwasanaethau fferyllol a chyflwyno rheoliadau i roi hyblygrwydd gweinyddu pecyn gwreiddiol ar waith.

Opsiwn 1: Gwneud dim

6.1 Cyflwynodd 'Presgripsiwn Newydd - A New Prescription (llyw.cymru), a ddaeth i rym o Ebrill 2022, ddiwygiadau sylweddol i Fframwaith Contractiol Fferylliaeth Gymunedol ar gyfer fferyllfeydd cymunedol y GIG.

6.2 Ymrwymodd 'Presgripsiwn Newydd – A new Prescription' Lywodraeth Cymru i adolygu'r telerau gwasanaeth presennol ar gyfer contractwyr fferylliaeth gymunedol gyda'r bwriad o leihau biwrocratiaeth ddiangen a baich gweinyddol a rhyddhau amser fferyllydd ar gyfer darparu gofal uniongyrchol i gleifion.

6.3 Nid yw cadw'r rheoliadau presennol o ran telerau gwasanaeth, felly, yn opsiwn.

6.4 O ran gweinyddu pecyn gwreiddiol, cyflwynwyd deddfwriaeth y DU sy'n cwmpasu Cymru ym mis Hydref 2023 drwy Reoliadau Meddyginiaethau Dynol (Diwygiad sy'n Ymwneud â Gweinyddu Pecyn Gwreiddiol) (Cymru a Lloegr a'r Alban) 2023 (legislation.gov.uk). Nid yw'r ddeddfwriaeth hon yn rhoi disgresiwn i Weinidogion Cymru amrywio swm y feddyginiaeth y gellir ei gweinyddu o'r 10% a bennir ond mae'n ei gwneud yn ofynnol cael is-ddeddfwriaeth bellach er mwyn iddi gael ei rhoi ar waith yng Nghymru.

Opsiwn 2: Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020.

6.5 Mae'r diwygiadau i reoliadau telerau gwasanaeth fferyllwyr y GIG yn diweddaru ac yn egluro'r is-ddeddfwriaeth bresennol ac nid ydynt yn cynnwys newidiadau polisi newydd sylweddol

6.6 Datblygwyd y diwygiadau yn dilyn trafodaethau gyda Fferylliaeth Gymunedol Cymru a chynrychiolwyr y byrddau iechyd lleol ac ymgynghorwyd â grŵp rhanddeiliaid ehangach. Dangosodd yr ymatebion a ddaeth i law fod cefnogaeth fwyafrifol glir i'r newidiadau rheoleiddiol.

6.7 Mae hefyd yn ofynnol i ddiwygiadau rheoleiddiol ystyried y ffordd newidiol y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu gan gontractwyr gofal sylfaenol eraill. Yn benodol, drwy ymestyn y darpariaethau presennol i ganiatáu i fferyllwyr cymunedol gyflenwi meddyginiaethau yn erbyn archebion

wedi'u llofnodi a ddyroddir gan optometryddion cymwys yn unol â Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS) a gyflwynwyd yn 2023. (Mae'r rheoliadau presennol yn caniatáu archebion wedi'u llofnodi gan feddygon a deintyddion yn unig). Bydd cynnwys optometryddion yn sicrhau y gall cleifion sy'n cael mynediad i ofal WGOS ar gyfer problemau llygaid brys gael triniaeth briodol gan y GIG, gan gynnwys meddyginiaethau presgripsiwn yn unig, heb yr angen i gael presgripsiwn meddyg teulu neu gael ymgynghoriad pellach gan y Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin yn y fferyllfa. Bydd hyn er budd y claf a'r GIG.

6.8 Er mwyn galluogi gweinyddu pecyn gwreiddiol i gael ei gyflwyno fel y disgrifir o dan baragraff 4.5 uchod, mae angen is-ddeddfwriaeth bellach. Bydd y darpariaethau hyn yn dod i rym ar 1 Ionawr 2025.

## 7. Costau a Manteision

Costau

7.1 Nid oes costau nac arbedion sylweddol yn gysylltiedig â'r cynigion

Manteision

7.2 Bwriad y diwygiadau yw galluogi fferyllfeydd i fod yn fwy ymatebol i anghenion y poblogaethau y maent yn eu gwasanaethu. Drwy ddiweddaru rheoliadau i fodloni newidiadau yn y ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu a chael gwared ar weithgareddau hen ffasiwn ac aneffeithiol, dylid cynyddu gallu fferyllfeydd cymunedol i ganolbwyntio ar wasanaethau sy'n canolbwyntio ar gleifion, gan effeithio'n gadarnhaol ar iechyd y cyhoedd.

7.3 Mae'r newidiadau rheoleiddiol i'r telerau gwasanaeth yn adlewyrchu datblygu modelau gwasanaeth ar gyfer darparu gofal fel y nodir ym Model Gofal Sylfaenol Cymru. Eu nod yw rhoi mwy o eglurder i weithwyr iechyd proffesiynol ar gyfrifoldebau ar gyfer darparu gwasanaethau, lleihau biwrocratiaeth weinyddol, rhyddhau amser ac adnoddau ar gyfer darparu gwasanaethau, a hybu gwerthusiad mwy effeithiol o weithgareddau i helpu i gynllunio adnoddau a darparu gwasanaethau'n well.

7.4 Bydd prif effaith y rheoliadau ar fynediad at wasanaethau yn ôl pob tebyg. Bydd yn hwyluso mynediad haws at wasanaethau sy'n cefnogi ffyrdd iachach o fyw ac yn galluogi fferyllfeydd i ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol mewn ffordd sy'n adlewyrchu anghenion y boblogaeth a'r GIG yng Nghymru yn well.

7.5 Drwy gyflwyno rheoliadau i ganiatáu hyblygrwydd i fferyllwyr y GIG ddosbarthu swm o hyd at 10% yn fwy neu 10% yn llai o feddyginiaeth na'r swm a ragnodir os yw'n golygu y gellir gweinyddu'r feddyginiaeth yn neunydd pecynnu gwreiddiol y gweithgynhyrchwr, bydd manteision i ddiogelwch cleifion drwy sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu cyflenwi i gleifion yn amlach sy'n cynnwys yr wybodaeth ddiogelwch yn neunydd pecynnu gwreiddiol meddyginiaeth neu arno.

## 8. Asesu'r gystadleuaeth

8.1 Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau effeithio ar gystadleuaeth yng Nghymru na chystadleurwydd cwmnïau yng Nghymru.

9. **Adolygu ar ôl gweithredu**

9.1 Ni chynigir unrhyw amserlen adolygu ffurfiol. Bydd rheoliadau'n cael eu hadolygu fel rhan o drafodaethau parhaus rheolaidd â rhanddeiliaid fferyllfeydd cymunedol.